**Cofnodion o gyfarfod cyngor cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 21 Hydref 2025 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Philip Roberts, Dylan Jones, Colin Swatridge, Berwyn Parry Jones, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Hefin Jones, Alan Pritchard, Gwynedd Williams

**Cyfieithydd**: Lowri Gwyn, Lingo Cyf.

**Clerc:** Meirion Jones

**1516. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croesi i bawb i'r cyfarfod

**1517 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1518. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1519. I dderbyn cofnodion cyfarfod 16 Medi 2025 a 15 Hydref 2025**

Derbyniwyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1520. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1521. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1522. I ystyried sylw dau a dderbyniwyd gan Mr David Smalley drwy wefan y cyngor.**

Nodwyd fod y pwyntia a godwyd gam Mr Smalley yn fwy perthnasol ar gyfer Cyngor Gwynedd na'r cyngor cymuned, felly cytunodd Cynghorydd Berwyn Parry Jones i wneud ymholiadau

**1523. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y pwyllgor fel a ganlyn

Bydd datganiad (ar wefan y Cyngor a thudalen Facebook y Cyngor) am flodau ffug a'i tebyg yn y fynwent, yn cael ei thrafod yn cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor.
Hefyd ar yr agenda bydd:
Cymwysterau torrwr beddi.
Canlyniadau Asesiad risg blynyddol yn y fynwent a chymerodd lle ym mis Medi.
Gwaith ar y stêcs tu nol i rai cerrig beddi.
Materion eraill i'w nodi- arwyddion newydd fyny yn y fynwent. Brain wedi bod yn tyrchu am larfa'r lledr (leather jacket grub) yn rhan agored o'r fynwent heb greu llawer o ddifrod. (mae hyn wedi bod yn broblem ddifrifol i fynwentydd yn ystod y misoedd diwethaf),disgwyl gwaith i greu gofod parcio anabl.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1524. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor, nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn ffurfiol ond fod cwyn wedi derbyn am arwydd ar y cae chwarae yng Nghwm Glo ynghyd a nifer o faterion eraill gan gynnwys fod yr offer 'allan o ddyddiad'. Adroddwyd fod y Cynghorwyr Avril Jones a Cemlyn Jones wedi cyfarfod yr achwynydd ar y safle ac wedi gallu egluro sefyllfa'r cyngor ond cytunwyd i symud yr arwydd i leoliad arall.

Adroddwyd fod y gwaith cynnal a chadw wedi cychwyn yn y parc sglefrio

Adroddwyd fod yr offer chware newydd wedi ei osod ym Mharc Moelyn a bod yr adborth ohono hyd yn hyn yn dda iawn a bod y byrddau picnic hefyd wedi eu gosod

Fod y cyngor yn pwrcasu torch ar gyfer Sul y Cofio ar gyfer Cwm y Glo a Llanrug

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1525. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor, nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond fod angen cyfarfod i fynd drwy'r rheoliadau ariannol.

Nodwyd hefyd fod angen newid arwyddwyr ar y fantolen banc a chytunwyd i ychwanegu'r Cynghorwyr Berwyn Parry Jones a Philip Roberts

**1526. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**a)** **Rhif y Cais:** C25/0664/23/CR
**Math o Gais:** Caniatad Adeilad Rhestredig
**Bwriad:** Addasiadau mewnol ac allanol i drosi'r adeilad ac estyniad i greu ystafelloedd gyfarfod a chynadleddau ynghyd ag ystafelloedd gwely ychwanegol gwesteion mewn cysylltiedig a defnydd y prif Westy Seiont Manor / Internal and external alterations to convert the building and extend to create meeting and conference rooms and additional guest bedrooms associated with the Seiont Manor Hotel
**Ymgeisydd:** (Caernarfon Properties Ltd)
**Asiant:** Rhys Davies (Cadnant Planning)
**Cyfeiriad:** Seiont Manor Hotel, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ
**Cyfeirnod Grid:** 252847.99999999994, 363845.99999999994
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**b)** **Rhif y Cais:** C25/0651/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais cynllunio llawn ar gyfer 17 annedd fforddiadwy, ynghyd a chreu mynediad newydd i gerbydau a ffordd fynedfa fewnol, cau 2 bwynt mynediad amaethyddol presennol, creu mynediad newydd i wasanaethu is-orsaf newydd, gwaith ymestyn Ffordd Glanffynnon ynghyd a gwaith tirlunio, draenio a gwaith arall cysylltiedig. Full planning application for 17 affordable dwellings, together with creating new vehicle access and an internal entrance road, closing 2 existing agricultural access points, creating new access to serve a new sub-station, extension works to Glanffynnon Road along with landscaping, drainage, and other related works.
**Ymgeisydd:** (Adra)
**Asiant:** Mr Sion Roberts (Cadnant Planning)
**Cyfeiriad:** Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, LL55 4PT
**Cyfeirnod Grid:** 253645.89838832873, 363055.38469775394
**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd**: Atal gwneud penderfyniad ar hyn o'i bryd a'r drosglwyddo i gyfarfod mis Tachwedd

**c)** **Rhif y Cais:** C25/0443/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ôl-weithredol i adeiladu adeilad un llawr newydd i'w ddefnyddio fel canolfan gymunedol ar flaen maes yr ysgol ar ôl dymchwel yr adeilad segur. Retrospective erection of a new 1 storey building to be used as a community hub on the front of the school ground after demolishing the unused premise.
**Ymgeisydd:** Ms Lorraine Sheldon-Crane
**Asiant:** Mr David Rojo
**Cyfeiriad:** Cyngor Gwynedd, Ysgol Brynrefail Ffordd Crawia, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AD
**Cyfeirnod Grid:** 253555.9999999999, 363743.0000000001

**Ward:** Llanrug
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd**: Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20:25

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: